Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o'r Asesiad Taliad Annibyniaeth Personol

Cyflwynwyd gerbron y Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Chwefror 2015

Cm 9015

OGL

**(h) Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: **psi@nationalarchives.gsi.gov.uk**.

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/personal-independence-payment-pip-assessments-first-independent-review-government-response**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

**Strategy, Policy and Analysis Team**
**Disability Benefits**
**PIP Policy Team**
**Ground Floor**
**Caxton House**
**6-12 Tothill Street**
**London**
**SW1H 9NA**

**E-bost: pip.independentreview@dwp.gsi.gov.uk**

**Gwe ISBN 978-1-78425-481-0**

Rhif Adnabod 20021511 02/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair Gweinidogol** | | 4 |
| Pennod 1 | **Cyflwyniad** | 5 |

# Rhagair Gweinidogol

Rwyf yn croesawu'r adolygiad annibynnol cyntaf hwn o'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ac rwy'n ddiolchgar i Paul Gray am ei adroddiad a'i argymhellion.

Mae fy ymrwymiad personol i sicrhau fod PIP yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gyfranogi yn golygu bod gwella'r broses wedi bod ar flaen fy mlaenoriaethau yn fy rôl fel Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl.

Rydym wedi gwneud gwelliannau enfawr yn barod. Y llynedd, roedd yn amlwg bod rhai hawlwyr yn profi amseroedd aros hir. O ganlyniad i'r newidiadau a wnaeth yr Adran ym mis Ionawr 2015, roeddwn yn falch o gyhoeddi bod yr hawlydd cyfartalog yn awr yn aros 14 wythnos, i lawr o 30 wythnos ym mis Mehefin 2014. Rydym yn awr yn clirio pedair gwaith yn fwy o geisiadau bob mis o'i gymharu â dechrau 2014. Yn bwysicaf oll, gall yr hawlydd cyfartalog sy'n gwneud cais am PIP o dan y rheolau arbennig ar gyfer salwch terfynol disgwyl penderfyniad o fewn saith diwrnod. Hoffwn ddiolch i fy rhagflaenydd a Macmillan am y gwaith y maent yn ei gynnal i'n helpu i gyflawni'r uchelgais hwn.

Rwyf am fynd ymhellach a pharhau i wella'r broses ar gyfer hawlwyr. Gwnaeth y Llywodraeth hon cydnabod y cymhlethdod o ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl gyda budd-dal tecach, mwy gwrthrychol a mwy cyson o'r dechrau, a dyna pam ein bod wedi ymrwymo mewn deddfwriaeth i gynnal o leiaf dau adolygiad annibynnol o'r asesiad. Mae'r ymateb hwn yn gam pwysig wrth amlinellu'r camau y bydd fy Adran yn eu cymryd, ynghyd â'r darparwyr asesiad annibynnol, i gyflwyno newidiadau cadarnhaol. Mae'n canolbwyntio ar feysydd lle y credwn y gall gweithredu ar unwaith wneud gwahaniaeth a lle mae eisoes gwaith ar y gweill gan fy Adran i'w gyflawni.

Mae cyhoeddiad o ddatganoli PIP yn yr Alban ac yr Etholiad Cyffredinol sydd ar y gweill ym mis Mai 2015 yn ychwanegu cymhlethdod at weithrediad rhai o argymhellion tymor hir yr adolygiad. Mae'n bwysig felly ein bod yn llwyr ystyried y goblygiadau i wneud yn siŵr ein bod yn cael pethau'n iawn.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r holl bobl anabl, sefydliadau anabledd, sefydliadau cymorth ac eraill sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad. Mae ymgynghori wedi bod yn rhan annatod o ddatblygu a gweithredu PIP a bydd fy Adran yn parhau i weithio'n agos gyda phobl anabl a'u sefydliadau wrth ystyried a gweithredu argymhellion yr adolygiad yn y tymor byr a'r tymor hir.

**Mark Harper**
**Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl**

# 1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn nodi:

- Pam cyflwynodd y Llywodraeth y Taliad Annibyniaeth Personol
- Pwrpas yr adolygiad annibynnol
- Y cyd-destun ehangach y mae'r adolygiad wedi adrodd
- Natur ymateb yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Pam y gwnaethom gyflwyno PIP

O dan y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), cafodd dros hanner y ceisiadau eu gwneud heb unrhyw dystiolaeth feddygol ychwanegol a dim ond tua 6 y cant o hawlwyr yn cael eu gwahodd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Gwnaeth y meini prawf asesu ganolbwyntio'n bennaf ar anableddau corfforol, sy'n golygu nad yw llawer o hawlwyr â chyflyrau iechyd meddwl yn derbyn dyfarniad. Yn ogystal, roedd dros 70% o'r rhai ar y budd-dal yn derbyn gwobrau amhenodol, heb unrhyw ailasesiad systematig, pan wnaeth data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddangos bod tua thraean o bobl sydd â nam neu gyflwr iechyd tymor hir mewn blwyddyn, dweud nad oedd ganddynt hynny flwyddyn yn hwyrach[1]. Gwnaeth hyn i gyd gyfrannu at y nifer o bobl oedran gweithio a oedd yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl godi gan 21% yn ystod y deng mlynedd cyn cyflwyno Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).

Mae PIP yn mynd i'r afael â llawer o'r problemau y gwnaeth hawlwyr nodi gyda DLA. Mae'r asesiad newydd, gydag asesiad wyneb-yn-wyneb ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, yn sicrhau adolygiadau rheolaidd ac yn gwneud asesiad mwy gwrthrychol, trwy gasglu tystiolaeth feddygol bellach. Mae'r asesiad PIP yn edrych ar bobl fel unigolion a sut mae eu nam neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eu gallu i fyw bywydau annibynnol, yn enwedig gan gydnabod cyflyrau cyfnewidiol fel iechyd meddwl. Mae hyn yn golygu bod y budd-dal yn canolbwyntio ar y rhai sydd â'r angen mwyaf ac yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

[1] Oedolion sydd wedi gwrthbwyso gan nam, Arolwg Cyfleoedd Bywyd
http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_287015.pdf

## Yr adolygiad

Gan gydnabod maint yr her o weithredu'r budd-dal ac asesiad newydd hwn, gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad mewn deddfwriaeth[2] i gynnal o leiaf dau adolygiad annibynnol o PIP, er mwyn dysgu o brofiad a sicrhau bod PIP yn cyflawni ei bwriad polisi gwreiddiol.

Ym mis Ebrill 2014, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau benodi Paul Gray i gynnal yr adolygiad cyntaf o PIP. Ar hyn o bryd Paul Gray yw Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Nawdd Cymdeithasol (SSAC), corff annibynnol sy'n rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar ddeddfwriaeth nawdd cymdeithasol. Cyn hynny bu'n dal swyddi Ysgrifennydd Parhaol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM.

Wrth gynnal ei adolygiad, casglodd Paul Gray ystod o dystiolaeth i roi darlun defnyddiol o sut y mae'r broses asesu PIP yn gweithio, a beth arall y gellir ei wneud i'w wella. Roedd yn canolbwyntio ar faterion o dan dair prif thema; gwella profiad yr hawlydd, tystiolaeth bellach, ac effeithiolrwydd yr asesiad. Roedd cyfanswm o 14 o argymhellion a wnaed, dros ystod o wahanol amserlenni.

Bydd ail adolygiad annibynnol yn cael ei wneud a'i gyflwyno i'r Senedd erbyn mis Ebrill 2017.

## Cynnydd hyd yn hyn

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau ('yr Adran') eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella cyflwyno PIP a'r profiad i hawlwyr. Rydym wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r oedi mewn amseroedd prosesu ceisiadau, y gwnaethom yn glir roeddent yn annerbyniol, ac yr hyn y gwnaeth yr adolygiad nodweddu PIP ar gyfer llawer o hawlwyr yn y dyddiau cynnar. Ynghyd â'r darparwyr annibynnol sy'n cynnal asesiadau PIP, Atos a Capita, mae'r Adran wedi gwneud gwelliannau sylweddol i berfformiad – cynyddu nifer yr aseswyr pedair gwaith a phedwar plug nifer y penderfyniadau'r mis yn ystod 2014. Diweddarwyd ystadegau ar berfformiad PIP yn rheolaidd a gellir cael mynediad drwy wefan GOV.UK.[3]

Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i sicrhau bod unigolion sy'n gwneud cais am PIP o dan y Rheolau Arbennig ar gyfer Afiechyd Terfynol yn derbyn penderfyniad cyn gynted â phosibl. Ar gyfer y person cyfartalog yn y sefyllfa honno, cliriwyd eu cais erbyn hyn mewn dim ond saith niwrnod.

## Y cyd-destun ehangach

Mae'r cyd-destun ehangach o PIP, gan gynnwys yr argymhelliad yn ddiweddar gan y Comisiwn Smith i ddatganoli budd-daliadau anabledd yn yr Alban a phenderfyniad sydd ar y gweill gan Ogledd Iwerddon ar p'un a fyddant yn cyflwyno PIP, yn codi amrywiaeth o heriau a fydd yn effeithio ar rai o argymhellion yr adolygiad ac angen ystyriaeth briodol.

Yn yr un modd, mae gan gwmpas eang rhai o'r argymhellion hyn, fel y rhai a fydd angen ymrwymiad sefydliadau eraill a chytundeb ar draws y Llywodraeth, goblygiadau a fydd angen mwy o amser i weithio drwyddynt. Yn ogystal, wrth i ni ddechrau ar y broses o ailasesu a reolir hawlwyr presennol DLA i PIP yn ddiweddarach eleni, mae'n bwysig ein bod yn cynnal sefydlogrwydd ac yn sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno mor ddiogel â phosibl.

2 Adran 89 y ddeddf Diwygio Lles 2012.
3 https://www.gov.uk/government/collections/personal-independence-payment-statistics

Mae ymgynghori wedi bod yn allweddol i ddatblygiad PIP trwodd ac rydym wedi parhau i weithio ochr yn ochr â phobl anabl a'u sefydliadau wrth ystyried sut i ymateb i argymhellion yr adolygiad. Un thema a godwyd yn llawer o'r trafodaethau a gawsom oedd dymuniad i wneud yn siŵr bod goblygiadau gweithredu unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried yn briodol er mwyn sicrhau bod yr ymateb ei hun yn ddigon clir a manwl.

## Yr ymateb hwn

O ystyried y cyd-destun hwn, mae'r Adran wedi penderfynu ymateb i'r adolygiad mewn dau gam:

- Ymateb cychwynnol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar yr argymhellion tymor byr lle y gall yr Adran gymryd camau nawr. Bydd yn rhoi manylion am y camau a fydd yn cael eu cymryd i gyflawni'r rhain, gan ategu gwaith sydd eisoes ar y gweill. Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r ymateb cychwynnol hynny.
- Ar ôl gwneud gwaith pellach i ddeall yn llawn goblygiadau gweddill yr argymhellion canolig a thymor hir, rydym yn bwriadu darparu ymateb dilynol, llawn a rhoi sylw iddynt faes o law. Bydd yr amserlen ar gyfer darparu ymateb llawn i'r argymhellion hyn yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2015.

Fel y gwnaeth yr adolygiad yn glir, mae cyflwyno PIP yn ymdrech ar y cyd rhwng yr Adran a'r darparwyr asesu, Atos a Capita. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hynny, ac felly, lle y bo'n briodol, mae'r ymateb hwn hefyd yn amlinellu'r gwaith y mae darparwyr asesu wedi ymrwymo i ymgymryd mewn perthynas â'r argymhellion.

ISBN 978-1-78425-481-0

(h) Hawlfraint y Goron 2015

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Chwefror 2015

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**